

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	<p>Cyfres o ddogfennau i gefnogi gweithredu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Llais):</p> <p>Cod ymarfer ar fynediad i safleoedd</p> <p>Canllaw statudol ar sylwadau</p> <p>Canllawiau newid gwasanaethau'r GIG (canllawiau ar ymgysylltu ac ymgynghori)</p>
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	<p>Anthony Jordan</p> <p>Cadeirydd Ffrwd Gwaith Deddfwriaeth, Rhaglen Sefydlu Corff Llais y Dinesydd</p>
Adran:	<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p>
Pennaeth yr Is-adran/yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	<p>Yr Athro Chris Jones Uwch Swyddog Cyfrifol</p>

Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad dechrau:	20 Mehefin 2023

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

(Noder y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut rydych wedi cymhwyso / sut y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau a gynigir, yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?

Mae Gweinidogion wedi ymrwymo drwy ddarpariaethau yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020 ('Deddf 2020') i ddatblygu Cod Ymarfer ar fynediad i safleoedd a chanllawiau statudol ar sylwadau, ymgynghori arnynt a'u cyhoeddi. Mae canllawiau newid gwasanaethau'r GIG yn ddogfen fyw y mae Gweinidogion wedi ymrwymo i'w diwygio a'i hailgyhoeddi i gyd-fynd â sefydlu Corff Llais y Dinesydd ('y Corff' o hyn ymlaen). Nid polisiâu ynddynt eu hunain yw'r dogfennau ond maent yn darparu canllawiau i fwrw ymlaen â'r cyfeiriad polisi a oedd wedi cael mynegiant deddfwriaethol o fewn Deddf 2020. Bydd y cod ymarfer yn darparu arweiniad yn ymwneud â cheisiadau gan y Corff i gael mynediad i safleoedd iechyd a gofal cymdeithasol i geisio barn unigolion, a phan gytunir i roi mynediad, i ymgysylltu ag unigolion ar y safleoedd hynny at y diben hwnnw. Bydd y canllawiau statudol yn nodi ffactorau y mae'n rhaid i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol eu hystyried wrth ymdrin â sylwadau a wnaed iddynt gan y Corff. Yn olaf, mae'r canllawiau diwygiedig ar gyfer cyrff y GIG ar fwrw ymlaen â newid gwasanaethau yn cael eu diwygio i ystyried rôl newidiol y Corff o'i gymharu â'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) y mae wedi'u disodli.

Y tymor hir

Bwriad y darpariaethau yn y dogfennau, er eu bod yn destun adolygiad un flwyddyn yn sgil profiad, yw cefnogi effaith tymor hwy cyflwyno'r Corff ac, yn y pen draw, cefnogi rhoi llais cryfach i ddinasyddion wrth ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Atal

Bwriad y darpariaethau yn y dogfennau yw cefnogi torri'r cylch iechyd gwael negyddol trwy gryfhau mecanweithiau ar gyfer gwella ansawdd mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gwneir hyn drwy atgyfnerthu ac ehangu llais y dinesydd. Mae'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol wedi'i ystyried (er enghraifft mewn perthynas â phreifatrwydd unigolion, torri hawliau, neu feichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ac mae'r rhain wedi'u lliniaru cyn belled ag y bo modd wrth gynllunio'r canllawiau drwy gynnwys mesurau a chamau cydbwyso.

Integreiddio

Mae'r dogfennau'n cysylltu'r agendâu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn y plethwaith o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac wedi gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y pwynt hwn, er enghraifft mewn perthynas â sylwadau gan y Corff am wasanaethau neu faterion sy'n gyffredin i ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi'i gryfhau yn y dogfennau terfynol.

Cydweithredu

Mae gan y Corff ei hun, Cyngorau Iechyd Cymuned, awdurdodau lleol, cyrff y GIG, comisiynwyr statudol, y trydydd sector a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gyd ddiddordeb yn y dogfennau. Datblygwyd y dogfennau gan fanteisio ar ymgysylltiad ag amryw o'r partneriaid hyn, eu hadolygu ar ffurf ddrafft gyda gweithgorau o bartneriaid allweddol ac yna roeddent yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am 12 wythnos. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer y Corff, awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn benodol, yn dilyn cyhoeddi'r dogfennau.

Cyfranogiad

Gweler o dan 'Cydweithredu' uchod.

Effaith

I raddau helaeth, nid yw'r gweithgaredd hwn yn un dewisol; rhaid i Weinidogion Cymru weithredu'r hyn a nodir yn Neddf 2020. Archwiliwyd effaith y canllawiau a nodir yn y dogfennau drwy ymgysylltu ymlaen llaw â phartneriaid allweddol ac ymgynghoriad ffurfiol sy'n agored i bawb.

Costau ac Arbedion

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu'r dogfennau a'u dosbarthu'n electronig (cyflwyno) yn gostau Llywodraeth Cymru a byddant yn cael eu talu o gyllidebau presennol. Gan fod y disgwyliadau cyffredinol (y bydd y Corff yn ceisio mynediad i safleoedd; y bydd cyrff iechyd ac awdurdodau lleol yn derbyn ac yn ymateb i sylwadau'r Corff - neu, yn achos cyrff iechyd, yn parhau i wneud hynny i bob pwrpas er mwyn sicrhau parhad trefniadau sy'n gysylltiedig â Chynghorau Iechyd Cymuned; ac y bydd cyrff y GIG yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys y Cyngorau Iechyd Cymuned/y Corff) eisoes yn bodoli o ganlyniad i Ddeddf 2020 neu Ddeddfau eraill, ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol newydd o ganlyniad i'r dogfennau hyn. Ni wnaeth y rhanddeiliaid unrhyw sylwadau sylweddol ynghylch costau mewn ymateb i ymgynghoriad ffurfiol.

Mecanwaith

Mae'r mecanweithiau wedi'u nodi gan mwyaf yn Neddf 2020. Ni chynigir deddfwriaeth.

ADRAN 8. CASGLIAD

(Noder y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Mae gan y Corff ei hun, Cyngorau Iechyd Cymuned, awdurdodau lleol, cyrff y GIG, comisiynwyr statudol, y trydydd sector a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gyd ddiddordeb yn y dogfennau. Datblygwyd y dogfennau gan fanteisio ar ymgysylltiad ag amryw o'r partneriaid hyn, eu hadolygu ar ffurf ddrafft gyda gweithgorau o bartneriaid allweddol ac yna roeddent yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am 12 wythnos.

Oherwydd natur y canllawiau (canllawiau yn bennaf ar gyfer cyrff statudol yn ymwneud â chyflawni'r dyletswyddau a osodwyd arnynt drwy statud) nid yw gwaith cyfranogi wedi'i wneud gyda dinasyddion, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc. Ymgysylltwyd â'r partneriaid sydd â chyfrifoldeb statudol dros lesiant pobl (megis llywodraeth leol a'r GIG) a gyda Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Bwriad y darpariaethau yn y dogfennau, er eu bod yn destun adolygiad un flwyddyn yn sgil profiad, yw cefnogi effaith tymor hwy cyflwyno'r Corff ac, yn y pen draw, cefnogi rhoi llais cryfach i ddinasyddion wrth ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Eu bwriad yw cefnogi torri'r cylch iechyd gwael negyddol trwy gryfhau mecanweithiau ar gyfer gwella ansawdd mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gwneir hyn drwy atgyfnerthu ac ehangu llais y dinesydd. Mae'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol wedi'i ystyried (er enghraifft mewn perthynas â phreifatrwydd unigolion, torri hawliau, neu feichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ac mae'r rhain wedi'u lliniaru cyn belled ag y bo modd wrth gynllunio'r canllawiau drwy gynnwys mesurau a chymau cydbwysu.

Mae'r dogfennau'n cysylltu'r agendâu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn y plethwaith o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac wedi gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y pwynt hwn, er enghraifft mewn perthynas â sylwadau gan y Corff am wasanaethau neu faterion sy'n gyffredin i ofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan y Corff ei hun, Cyngorau Iechyd Cymuned, awdurdodau lleol, cyrff y GIG, comisiynwyr statudol, y trydydd sector a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gyd ddiddordeb yn y dogfennau. Datblygwyd y dogfennau gan ymgysylltu ag amryw o'r partneriaid hyn, eu hadolygu ar ffurf ddrafft gyda gweithgorau o bartneriaid allweddol ac yna eu gwneud yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol 12 wythnos. Roedd themâu a ddaeth o'r ymgysylltiad (sy'n berthnasol i'r

Asesiad Effaith Integredig hwn) yn cynnwys egluro/mynegi'r cymhwysedd i blant a phobl ifanc, gwella cyfeiriadau at y Gymraeg, diogelu, cyhoeddi gwybodaeth a'i hygyrchedd.

8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Dylai'r canllawiau yn y dogfennau effeithio'n gadarnhaol i raddau cymedrol ar bobl (gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig) a chymunedau. O ran pobl, byddai hyn yn cynnwys yn benodol y rhai hynny sy'n derbyn gofal iechyd a/neu ofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ynghyd â phobl sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n derbyn gofal o'r fath; eraill sydd â diddordeb gan gynnwys y rhai a allai fod yn derbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol; a'r rhai hynny sy'n gweithio neu'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cymunedau gyda neu heb ddarpariaeth iechyd leol berthnasol hefyd yn cael eu heffeithio'n gymedrol, a chadarnhaol. Bydd natur yr effaith hon yn amrywio ond gellir ei chrynhai fel darparu cyfleoedd ychwanegol/gwell i fynegi barn i'r Corff, ac i ymhelaethu ar hynny drwy gyfrwng y Corff, gan gael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ei hun a hefyd ar ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon (er enghraifft mewn perthynas â newidiadau i'r gwasanaeth).

Yn ogystal, mae'r dogfennau'n cyfrannu at integreiddio trwy gysylltu'r agendâu polisi iechyd a gofal cymdeithasol yn y plethwaith o 'sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd' ac wedi gwneud darpariaeth benodol ar gyfer y pwynt hwn, er enghraifft mewn perthynas â sylwadau gan y Corff am wasanaethau neu faterion sy'n gyffredin i ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi'i gryfhau yn y dogfennau terfynol, gan eu gwneud yn fwy cefnogol o weithio ar y cyd a chydabod yn gliriach beth yw natur integredig llawer o wasanaethau ar draws darparwyr ac ardaloedd.

Ystyriwyd y potensial ar gyfer effeithiau negyddol (er enghraifft mewn perthynas â phreifatrwydd unigolion, torri hawliau, neu feichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) ac mae'r rhain wedi'u lliniaru cyn belled ag y bo modd wrth gynllunio'r canllawiau drwy gynnwys mesurau/camau cydbwysu. Er enghraifft, amlygwyd ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas ag ystyried mynediad i anheddau unigol/mannau preifat, er mwyn lliniaru yn erbyn y posibilrwydd y gellid dehongli'r canllawiau fel rhai sy'n rhoi hawl mynediad. Mae rhywbeth tebyg yn berthnasol mewn perthynas â chanllawiau sy'n ymdrin â mynediad cyffredinol i leoliadau sy'n sail i gydsyniad (ond hefyd yn cyfeirio at ddymuniadau a buddion defnyddwyr gwasanaeth). Cyfeiriwyd hefyd at hawliau yn y canllawiau statudol ar sylwadau ar gyfer unrhyw achlysur y bydd sylwadau'n cael eu gwneud sy'n enwi unigolion.

Gwnaed darpariaeth ddatganedig hefyd, mewn perthynas â'r agweddau hynny ar y canllawiau sy'n ymwneud ag ymgysylltu ag unigolion, ystyriaethau ynghylch hygyrchedd gwybodaeth, cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu, a chydysniad gwybodus (cyfeiriwyd yn briodol hefyd at gydsynio i ymgysylltu â phlant). Bwriad y darpariaethau hyn yw cefnogi'r cyrff dan sylw i arfer swyddogaethau perthnasol mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd perchnogion polisi terfynol y dogfennau (Cod ymarfer ar fynediad, Canllawiau statudol ar sylwadau, canllawiau newid gwasanaethau'r GIG) yn cynnal adolygiad un flwyddyn o'r dogfennau ar ôl blwyddyn gyntaf y gweithrediadau ac yn ystyried newidiadau bryd hynny. Y perchnogion polisi fydd yn penderfynu ar y trefniadau wedi hyn.

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Cyfres o ddogfennau i gefnogi gweithredu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Llais):

Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd

Canllaw Statudol ar Sylwadau

Canllawiau newid gwasanaethau'r GIG (canllawiau ar ymgysylltu ac ymgynghori)

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Nid polisiâu ynddynt eu hunain yw'r dogfennau ond maent yn darparu canllawiau i fwrw ymlaen â'r cyfeiriad polisi y rhoddwyd mynegiant deddfwriaethol iddo o fewn Deddf 2020.

Oherwydd natur y canllawiau (sy'n arweiniad yn bennaf ar gyfer cyrff statudol mewn perthynas â chyflawni'r dyletswyddau a osodwyd arnynt drwy statud) nid oes gwaith cyfranogol wedi'i wneud gyda dinasyddion, gan gynnwys gyda phlant a phobl ifanc. Gwnaethpwyd gwaith ymgysylltu gyda Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar ddau gam yn ystod y broses, yn gyntaf yn y cyfnod cyn-ymgynghori, ac yna drwy'r ymgynghoriad ffurfiol. Mewn perthynas â'r cyfnod cyn-ymgynghori, cynrychiolwyd Swyddfa'r Comisiynydd mewn cyfarfod gweithgor a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddrafftiau o'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â mynediad i safleoedd a chanllawiau statudol ar sylwadau. Ymatebodd y Comisiynydd i'r ymgynghoriad hefyd. Roedd yr adborth yn canolbwyntio'n benodol ar gyfeirio at blant a phobl ifanc a'u hawliau o fewn y dogfennau, i'w gwneud yn glir bod cyfeiriadau at swyddogaethau'r Corff, ac ati (e.e. *"gwrando a chynrychioli buddiannau'r cyhoedd, ym mhob rhan o Gymru, mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol"*) yn benodol yn cynnwys gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynrychioli. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu yn y gwaith i gwblhau'r rhain ar ôl ymgynghori. Yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar gyfeirio at 'unigolion' ac at hawliau unigolion yn gyffredinol, mae cyfeiriadau penodol at blant a phobl ifanc a'u hawliau bellach wedi'u mewnosod lle bo hynny'n briodol, er enghraifft mewn diwygiadau i baragraffau 4 a 7 a throednodyn i baragraff 1 y Cod Ymarfer ar Fynediad.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Dylai'r canllawiau yn y dogfennau effeithio'n gadarnhaol i raddau cymedrol ar blant a phobl ifanc, yn benodol y rhai sy'n derbyn gofal iechyd a/neu ofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ynghyd â phobl sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n derbyn gofal o'r fath; eraill sydd â diddordeb gan gynnwys y rhai a allai fod yn derbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol; y rhai sy'n gweithio yn y maes neu'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y manau priodol, cyfeirir yn benodol at rôl y Corff wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a chanfod a chynrychioli eu barn, a nodir ystyriaethau sy'n berthnasol i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y Cod Ymarfer ar Fynediad. Dylai hyn gefnogi'r Corff i ddarparu cyfleoedd ychwanegol neu well i fynegi a rhannu eu barn, gan gynnwys y cwmpas i ystyried llwybrau penodol i blant a phobl ifanc wneud hynny, er bod hyn y tu hwnt i'r pwerau y mae'r dogfennau hyn yn berthnasol iddynt.

Bydd natur yr effaith yn amrywio ond gellir ei grynhoi fel darparu cyfleoedd ychwanegol/gwell i fynegi barn i'r Corff, a chyfathrebu'r safbwyntiau hyn drwy gyfrwng y Corff, a thrwy hynny gael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ei hun a hefyd ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.

Mae effeithiau negyddol posibl (er enghraifft mewn perthynas â'r hawl i breifatrwydd i blant a phobl ifanc) wedi cael eu hystyried a'u lliniaru wrth ddatblygu'r canllawiau yn y dogfennau. Er enghraifft, amlygwyd ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas ag ystyried mynediad i anheddau unigol/mannau preifat ac ymgysylltu ag unigolion yn y manau hynny, er mwyn lliniaru yn erbyn y posibilrwydd y gellid dehongli'r canllawiau fel rhai sy'n rhoi hawl mynediad/ymgysylltu. Cyfeiriwyd yn briodol hefyd at gydsyniad ar gyfer ymgysylltu â phlant, gyda'r Cod Ymarfer ar Fynediad yn nodi'n benodol:

‘Yn unol â'r disgwyliad cyffredinol y bydd ymgysylltiad â phlant yn cael ei gynnal gan roi sylw priodol i'w hawliau, dylid ceisio cydsyniad y plentyn ei hun ar gyfer ymgysylltu ag ef ar y safle, os yw'n meddu ar y cymhwysedd cyfreithiol angenrheidiol i roi ei gydsyniad, neu dylid ceisio cydsyniad gan oedolyn cyfrifol.’

- Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotoolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Erthyglau neu Brotool Dewisol y Confensiwn	Yn Gwella (X)	Yn Herio (X)	Esboniad
--	---------------	--------------	----------

<p><i>Erthygl 12 Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.</i></p>	X		<p>Dylai'r canllawiau yn y dogfennau effeithio'n gadarnhaol i raddau cymedrol ar blant a phobl ifanc, yn benodol y rhai sy'n derbyn gofal iechyd a/neu ofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ynghyd â phobl sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n derbyn gofal o'r fath; eraill sydd â diddordeb gan gynnwys y rhai a allai fod yn derbyn gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol; y rhai sy'n gweithio yn y maes neu'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol.</p>
<p><i>Erthygl 16 - Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu diogelu rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.</i></p>	X		<p>Bydd natur yr effaith yn amrywio ond gellir ei grynhoi fel darparu cyfleoedd ychwanegol/gwell i fynegi barn i'r Corff, a chyfathrebu'r safbwyntiau hyn drwy gyfrwng y Corff, drwy hwyluso mynediad i unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, gan ddileu rhai o'r rhwystrau y gallai rhai unigolion eu hwynebu o ran trafndiaeth, mynediad a dealltwriaeth a chael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ei hun a hefyd ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.</p>

			<p>Mae effeithiau negyddol posibl (er enghraifft mewn perthynas â'r hawl i breifatrwydd i blant a phobl ifanc) wedi cael eu hystyried a'u lliniaru wrth ddatblygu'r canllawiau yn y dogfennau. Er enghraifft, amlygwyd ystyriaethau hawliau dynol mewn perthynas ag ystyried mynediad i anheddau unigol/mannau preifat ac ymgysylltu ag unigolion yn y manau hynny, er mwyn lliniaru yn erbyn y posibilrwydd y gellid dehongli'r canllawiau fel rhai sy'n rhoi hawl mynediad/ymgysylltu. Fel y trafodwyd uchod, cyfeiriwyd yn briodol hefyd yn y Cod at gydsyniad i ymgysylltu â phlant.</p>
--	--	--	--

- Ystyriwch a oes unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Dim wedi'u nodi

I gael rhagor o wybodaeth am [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) a'i brotocolau dewisol, ewch i'r [Dudalen Fewnrwyd Hawliau Plant](#).

4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Mae ystyried yr effeithiau wedi llywio'r cyngor gweinidogol perthnasol.

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

I ddilyn maes o law.

6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc

Er nad yw'r cwestiwn o gyfathrebu â phlant a phobl ifanc ynghylch cynnwys y canllawiau yn berthnasol, mae'r canllawiau dan sylw (Cod Ymarfer ar Fynediad i Safleoedd) yn nodi disgwyliadau ynghylch hygyrchedd gwybodaeth. Bydd y rhain yn cael eu cryfhau a bydd cyfeiriad penodol at hygyrchedd gwybodaeth (fformat/cynnwys/iaith) ar gyfer plant a phobl ifanc yn y fersiwn derfynol. Mae hefyd yn wir y bydd y Cod (drwy hwyluso mynediad i unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau gofal cymdeithasol) yn cael effaith gadarnhaol bosibl gan ddileu rhai o'r rhwystrau y gallai rhai unigolion eu hwynebu o ran trafnidiaeth, mynediad a dealltwriaeth.

7. Monitro ac Adolygu

Bydd trefniadau monitro ac adolygu yn cael eu pennu gan berchennog y polisi ond mae'n debygol y cânt eu hymgorffori yn yr adolygiad arfaethedig o'r dogfennau ar ôl blwyddyn o weithredu.